

# **papur priordy**



## **YR HYN A ALLODD EFE A'I GWNAETH**

**(Addasiad o  
Efengyl Marc 14: 8  
A allodd hi, fe'i gwnaeth)**

*Dewiswyd gan Carys Morgans  
Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*

**Rhifyn 357  
PAPUR GORFFENNAF AWST 2022**

# Gair gan ein Gweinidog

## Apostol Heddwch

**‘STAFELL FECHAN IAWN** oedd ein ‘stafell ddarlitho yng Ngholeg yr Annibynwyr, Aberystwyth. Wrth wasgu o amgylch y bwrdd, nid peth anarferol fyddai i un ohonom ni fyfyrwyr fwmpo ein pen yn ddamweiniol yn erbyn cornel plinth marmor a oedd yn dal pwysau penddelw o Henry Richard. Bu'r penddelw yn byw'n gartrefol iawn yn ein coleg ers sawl blwyddyn. Byddai ein Prifathro, y diweddar Eifion Powell, wastad yn dweud nad oedd yn gwneud synnwyr o gwbl bod penddelw Henry Richard yn achosi dolur achlysurol i'w fyfyrwyr gan ei fod yn cael ei adnabod fel Apostol Heddwch!

Wrth i'r miloedd dyrru i Dregaron ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, cânt olwg ar gofeb Henry Richard as sgwâr y dref gan taw dyma ei dref enedigol. Ganwyd ef yn 1812, yn fab i'r Parch. Ebenezer

Richard gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Graddodd mewn Diwinyddiaeth o Goleg Highbury yn Llundain.


Yn 1835 etholwyd ef yn weinidog ar gapel yr Annibynwyr yng Nghapel Marlborough yn Old Kent Road, Llundain.

Roedd yn ffigwr blaenllaw yn rhengoedd y Rhyddfrydwyr Cymreig ac yn gyfaill i'r diwygiwr radicalaidd Seisnig Richard Cobden. Yn 1868 etholwyd ef yn Aelod Seneddol Merthyr Tudful . Bu yn y swydd hon hyd 1888.

Ond cofir Henry Richard yn bennaf fel hyrwyddwr achos heddwch a chyd-

ddealltwriaeth ryngwladol ac fel ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch am ddeugain mlynedd (1848-84). Cyfrannodd yn fawr at y mudiad yn erbyn caethwasiaeth ac achosion eraill hefyd.

Cyhoeddodd nifer o bamffledi a thraethodau, yn Gymraeg a Saesneg, ar bynciau mawr ei gyfnod, yn cynnwys Addysg yng Nghymru, Safle'r Iaith Gymraeg, Diwygio'r Tir, a Datgysylltu'r Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru.




Bu farw ar ei ymweliad ag Arglwydd Raglaw Môn yn Nhrefborth, Bangor ar 21 Awst 1888 a cheir dwy gofeb iddo, y naill yn ei dref enedigol, Tregaron, a'r llall yw ei fedd ym Mynwent Abney Park, Llundain, lle ceir darlun ohono mewn carreg.

**RWY'N SIŴR Y BYDDAI** Henry Richard yn cytuno bod angen i'r floedd am 'Heddwch' yn seremonïau'r Orsedd yn Eisteddfod Tregaron eleni fod yn un ag iddi fwy o ystyr ac angerdd nag erioed.



### Gweddiwn

Arglwydd, helpa ni i gredu bod  
daioni'n gryfach na drygioni;  
bod cariad yn gryfach na chasineb;  
bod goleuni'n gryfach na thywyllwch;  
bod bywyd yn gryfach na marwolaeth;  
a bod buddugoliaeth yn eiddo i ni  
trwy yr Un a'n carodd ni.



Amen

*Addasiad o weddi gan Desmond Tutu*

### Mis Awst

Byddaf yn cymryd seibiant o'm gwaith yn ystod mis Awst yn ôl fy arfer. Os oes argyfwg yn codi yn fy absenoldeb, a fydddech gystal â chysylltu ag Ysgrifennydd yr Eglwys, Alun Charles ar ☎ 01267 236037 neu ☎ 07813 716062, os gwelwch yn dda.

Diolch  
Beti Wyn

| Mis Gorffennaf / Awst | Darlleniad        |
|-----------------------|-------------------|
| Wythnos 1             | Luc 10:1-11,16-20 |
| Wythnos 2             | Luc 10:25-37      |
| Wythnos 3             | Luc 10:38-42      |
| Wythnos 4             | Luc 11:1-13       |
| Wythnos 5             | Luc 12:13-21      |
| Wythnos 6             | Luc 12:32-40      |
| Wythnos 7             | Luc 12:49-56      |
| Wythnos 8             | Luc 13:10-17      |
| Wythnos 9             | Luc 14:1, 7-14    |

**DIOLCH YN FAWR**

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**JOHN A MAIR MEREDITH**

*at gyhoeddi'r Papur y mis hwn*

**CYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN**

**CWRDD CHWARTER - DYDD IAU, 9 MEDI 2022**

**Capel Ffynnon Bedr**

**Y Gynhadledd am 4 / Cyfarfod yr Hwyr am 7**

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?**

**Trowch at: [cyfundeb.com](http://cyfundeb.com)**

## CWRDD PLANT MIS MEHEFIN



## CWRDD PLANT

Dydd Sul 12 Mehefin 2022.

**P**leser pur oedd cael bod yng nghwmni'r plant wrth iddynt gyflwyno gwasanaeth arbennig ar fore hyfryd o haf a'r cyfeiliant dan ofal Band y Priordy.



Wedi'r weddi agoriadol a chynnau'r Gannwyll a chynnig gweddi dros Wcráin, fe'n gwahoddwyd i adrodd y ganfed Salm fel cynulleidfa. Ar ôl yr emyn cyntaf "*Af i mewn i byrth fy Nuw*" cyflwynodd Catrin Heledd Jones y cyhoeddiadau ac yna cafwyd y casgliad. Y casglwyr oedd Beca, Luned, Osian a Greta. Yn dilyn gweddi fer daeth Meredudd ymlaen i gyflwyno'r emyn nesaf sef "*Hedd sy'n llifo fel yr afon*"

Ifan a Cadi oed y nesaf i gymryd at yr awennau gyda dialog ddigri ar y thema teithio wedi'i chyflwyno'n raenus iawn a yna cawsom weld ffilim yn cynnwys lluniau'r plant a fu'n cymryd rhan yn Eisteddfod Yr Urdd yn ddiweddar i gefndir adnabyddus Cân Mr Urdd.

Yr emyn nesaf oedd "*Ceisiwch yn gyntaf*" ac wedi hynny cyflwynodd Gwilym, a fu'n fuddugol yn Eisteddfod yr Urdd, ei ddarn llefaru'n wych iawn. Wedi hynny daeth Lliwen a Gwern ymlaen i gyflwyno gweddi, eto yn effeithiol iawn.



Tro'r Band Taro oedd hi nesaf i gyfeilio i'r emyn "*Mae nghalon yn llon*" - emyn a oedd yn crynhoi teimladau'r gynulleidfa wrth iddynt ymuno a cheisio codi'r to. A da oedd gweld y rhai ifanc yn cadw amser gwych gyda'r offerynnau taro.

Ar ôl llongyfarch pawb a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod soniodd ein Gweinidog am yr arwyddion ffyrdd a welodd ar ei thaith i'r gogledd yn ddiweddar. Derbyniodd wyth o'r plant wahanol arwyddion ganddi. Yn ôl ei



harfer, gwnaeth ein Gweinidog gysylltiad clòs a phwrpasol rhygddynt ag egwyddorion Iesu.

Dyma'r arwyddion felly a rannwyd i'r plant: Stop, Troi Rownd, Dim Mynediad, Dim Stopio, 30 Milltir yr Awr, Cadw i'r Ochr, Ildiwch a Dynion yn Gweithio.

Roedd pob un o'r arwyddion yn bwysig er mwyn ein cadw'n ddiogel ar y ffordd fawr. Yn yr un modd mae Iesu yn rhoi canllawiau i ni i'w dilyn a'u hufuddhau er mwyn i ni gael bywyd hapus a diogel.



I ddiweddu cydganwyd yr emyn “*Iesu yw'r Ior*” cyn y fendith.

**R**ydym yn wir mor ffodus yn y Priordy fod gan y to ifanc yn ein heglwys gymaint o dalentau a brwdfrydedd. Diolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd at y plaser a'r hapusrwydd a brofodd pawb y bore hwn.

## **MENTRO MEWN FFYDD**

Cyflwyniad dramatig  
ar fideo ac ar lwyfan

**THEATR YR HALLIWELL**

Campws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Nos Iau 7 Gorffennaf 7.30

Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin Tocyn: £5



**YN DYMUNO CYFAMODI?**

**DENNIS JONES  
YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**

**Croeso i chi gysylltu ag e!**

## CWRDD PLANT MIS MEHEFIN





**RHAGLEN Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL  
CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN 2022  
7-10 Gorffennaf 2022**

*Y cyfarfodydd i'w cynnal yng Nghanolfan Halliwell ar  
gampws Coleg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant  
oni nodir yn wahanol*

| Dydd Iau, 7 Gorffennaf 2022 |                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|-----------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 1.30                        | Cynhadledd 1<br>Cadeirydd: Y Llywydd – Y Parchedig Beti-Wyn James<br>Defosiwn: Y Parchedig Gethin Rhys                                                                                                                                                                               |
| 2.00                        | Ymddiheuriadau am absenoldeb<br>Adroddiad Undeb Rhithiol 2021 ( <i>y Llyfr Gwyrdd</i> )<br>Croesawu / ethol Trysorydd newydd yr Undeb<br>Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2023 i Gyfundeb Dwyrain<br>Dinbych a Fflint<br>Eglwysi Dementia Gyfeillgar<br>Economi Bywyd a Newid Hinsawdd |
| 3.00                        | Te a chacen a chroeso                                                                                                                                                                                                                                                                |
| 4.00-<br>5.00               | Cyfarfod Heddwch                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| 5.30                        | Swper                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| 7.30                        | Cyflwyniad gan aelodau a chyfeillion eglwysi<br>Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin                                                                                                                                                                                                       |

| Dydd Gwener 8 Gorffennaf 2022 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|-------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 9.30                          | Cynhadledd 2<br>Cadeirydd: Y Llywydd – Y Parchedig Beti-Wyn James<br>Defosiwn: Y Parchedig Gethin Rhys                                                                                                                                                                                                              |
| 10.00                         | Adroddiad y Trysorydd<br>Adroddiad ar Fuddsoddion yr Undeb<br>Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol<br>Etholiadau <ul style="list-style-type: none"> <li>• 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd</li> <li>• Hyd at 3 i'r Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd</li> <li>• Cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn</li> </ul> |
| 11.00                         | Te / Coffi                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |

|               |                                                                                                                                                   |
|---------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 11.30         | Y Drysorfa Gynorthwyol<br>Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau<br>Y Tyst                                                                               |
| 1.00          | Cinio                                                                                                                                             |
| 2.00          | Cynhadledd 3<br>Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol<br>Penderfyniadau<br>Derbyn gweddill cofnodion y <i>Llyfr Glas</i><br>Penderfyniadau<br>UFA |
| 3.30          | Te / Coffi                                                                                                                                        |
| 4.00-<br>5.00 | Yr olaf o win yr haf: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 1972-2022<br>Darlith gan y Parchedig Ddr Geraint Tudur                                          |
| 5.30          | Swper                                                                                                                                             |
| 7.30          | Oedfa o Fawl<br>Capel Heol Awst, Caerfyrddin<br>Llywydd: Y Parchedig Beti-Wyn James<br>Pregeth: Y Parchedig Iwan Llewelyn Jones                   |

|                                |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|--------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dydd Sadwrn, 9 Gorffennaf 2022 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| 9.30                           | Defosiwn: Y Parchedig Tom Defis<br>Cadeirydd y Pwyllgor Lleol                                                                                                                                                                                                                                                          |
| 9.40                           | Dathliad yr Undeb dan ofal Alun Lenny                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| 11.00                          | Te / Coffi                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| 11.30                          | Oedfa'r Llywydd<br>Llywyddir gan Mr Dafydd Roberts<br>Cadeirydd y Cyngor<br>Coffáu y rhai a fu farw<br>Gweddi: Y Parchedig Rhodri Glyn Thomas<br>Dymuno'n dda i swyddogion a ymddeolodd<br>Croesawu gweinidogion newydd<br>Cydnabod gwasanaeth Trysorydd yr Undeb<br>Anerchiad y Llywydd<br>Y Parchedig Beti-Wyn James |
| 1.00                           | Cinio ac ymadael                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |



Dangosir cyflwyniadau Cwpan Denman  
yn ystod y cynadleddau



# Gwyl y Sul Sbesial



Siaradwr Gwadd:

**Huw Edwards**

Cadeirydd:

**Parchg Tom Evans**

gyda Band y Priordy, aelodau  
ysgolion Sul Peniel a Siloam.

Gweithgarwch i'r ieuenctid



Bydd cyfle i brynu te, coffi, cacennau ac ati yn y caffi wedyn

**Croeso cynnes i bawb  
i'r achlysur arbennig hwn**


Trefnir gan Annibynwyr Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

# RHAGOLYGMON SY'N HAEDDU SYLW!

Mae Cristnogaeth yn dirywio yn y Deyrnas Unedig. Yn fwyaf arbennig, mae'r niferoedd sy'n perthyn i eglwysi'n mynd yn is bob blwyddyn. Wrth gwrs, dyw'r enwadau i gyd ddim yn dirywio. Mae rhai'n tyfu. A thrafod patrwm twf a dirywiad ar draws yr enwadau yn y Deyrnas Unedig ynghyd â rhagolygon yr eglwysi ar gyfer y dyfodol y mae ymchwil diweddar gan un ysgolhaig cydnabyddedig.

Yr ymchwilydd hwnnw yw'r Dr John Hayward a fu'n ddarlithydd ym Mhrifysgol De Cymru cyn iddo ymddeol. A ffrwyth ei waith preifat a phersonol ar Fodelu Twf Eglwys yw'r ymchwil hwn o'i eiddo.

Mae'r sylwadau yn yr erthygl hon yn cyfeirio at ganlyniadau'r ymchwil yn unig ond gallwch ddarllen sut aeth John Hayward ati i ymchwilio, sefydlu ei feini prawf a phennu ffynonellau a chfygod ei ddata drwy gyfeirio at yr isod



<https://churchmodel.org.uk/2022/05/15/growth-decline-and-extinction-of-uk-churches/>

[https://churchmodel.org.uk/2022/05/20/uk\\_church\\_decline\\_and\\_progressive\\_ideology/](https://churchmodel.org.uk/2022/05/20/uk_church_decline_and_progressive_ideology/)

Nodwn, fodd bynnag, fod Model y Ffigwr R, sef y dull a ddefnyddiwyd i fesur trosglwyddo'r clefyd Covid-19, yn greiddiol i'w ymchwil a'i fod yn ei gymhwyso i ragweld dyfodol eglwysi a chapeli yn y Deyrnas Unedig.



Mae'r ymchwilydd yn rhagweld y bydd Eglwys Loegr yn peidio â bod yn eglwys genedlaethol ac y bydd Eglwys yr Alban a'r Eglwys yng Nghymru yn diflannu erbyn canol y ganrif.

Mae'n honni fod bron pob enwad a sefydlwyd cyn 1900 yn dirywio. Yr unig eglwysi sy'n tyfu yw'r rhai a sefydlwyd ar ôl 1900 - eglwysi efengylaidd eu hathrawiaeth: Eglwysi Elim, New Horizons a Chymdeithas o Eglwysi Efengylaidd Annibynnol.

Yn ôl yr ymchwil, mae'r tair eglwys yn y Deyrnas Unedig sy'n dirywio gyflymaf wedi'u lleoli yng Nghymru, sef eglwysi sy'n rhan o Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a'r Eglwys yng Nghymru. Mae'n rhagweld eu diwedd erbyn canol y ganrif. Dyw'r dyfodol ddim yn llewyrchus iawn ychwaith i eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru, ac mae'n rhagweld y byddant yn dod i ben tua 2085.

Barn yr ymchwilydd yw bod angen i eglwysi fel hyn ofyn yn ddifrifol iawn iddynt eu hunain sut y daethant i'r sefyllfa hon a'r diwedd yn llai na 30 o flynyddoedd i ffwrdd. Beth sy'n bod ar eu credoau, eu harferion sy'n eu hatal rhag denu dychweledigion neu ddilynwyr newydd? Onid teg yw disgwyl y byddai gosod adfer y sefyllfa ar frig eu rhestr flaenoriaethau ar ôl colli cymaint o aelodau mewn amser cymharol fyr?

Diben yr ymchwil yw annog pobl i godi cwestiynau a mynd ar drywydd y rhain ymhellach. A thybed a oes yna hefyd ffactorau arbennig yng Nghymru sy'n milwrio yn erbyn Cristnogaeth? Er enghraifft, pe baem yn gwybod beth yw canran yr eglwysi mewn ardaloedd trefol mewn cymhariaeth ag ardaloedd gwledig, efallai y gwelem fod canran uwch na'r cyffredin o bresenoldeb gwledig yn ffactor cyfrannol. Efallai fod goruchafiaeth ailgartrefi a mewnfudwyr yn yr adaloedd hyn yn ffactor hefyd. Yn ogystal, i ba raddau maer sefyllfa ieithyddol yn ffactor. Does gan yr ymchwilydd ddim tystiolaeth o'r dyanwad ieithyddol, cofiwch, a byddai'n ddiddorol ymchwilio ymhellach i'r holl ffactorau perthnasol i Gymru.

Mae un peth yn glir, yn ôl yr ymchwilydd - os yw pethau'n parhau fel y maent, dyw dyfodol Cristnogaeth ddim yn gorwedd yn nwylo'r enwadau hyn.

Mae'n bwysig nodi mai **rhagweld** ac nid **rhagfynegi** mae'r ymchwilydd. Serch hynny, mae'r rhagolygon yn gallu helpu eglwysi i archwilio'u polisïau er mwy chwyddo twf a brwydro yn erbyn dirywiad.

Dyw rhagolygon ei ymchwil ddim wrth fodd calon John Hayward o gwbl. Wrth gysylltu â Phapur Priordy dywedodd ei fod yn adnabod yr Eglwys yng Nghymru'n dda ac arferai bregethu mewn capel Annibynnol. ac mewn capeli dwyieithog. Am resymau teuluol a hanesyddol mae hefyd yn hoff o Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Nid yw'n mwynhau cyflwyno newyddion drwg o gwbl ond yn gobeithio o waelod calon y bydd ei ragolygon yn ysbrydoli pobl i weithredu er mwyn eu hosgoi.





## **RHAI O BLANT YR YSGOL SUL ADEG Y PENTECOST!**



## **CROESO I'N HAELOD NEWYDD – PETER WYRWOLL** *Gweler y Rhwydwaith*




**Tudalen Blaen..**

## **Rheswm Carys Morgans dros ddewis y geiriau**

***'Yr hyn a allodd, Efe a'i gwnaeth'***

**PAN** fu farw Dad yn 2005, doedd dim angen trafodaeth am y geiriau coffa fyddai'n cael eu rhoi ar ei garreg fedd. Er iddo gael ei drawiad calon cyntaf yn 25 oed, unigolyn wnaeth fyw bywyd llawn oedd Dad, ac roedd yn awyddus iawn i Eluned a finnau wneud yr un peth. Yn dair oed, cafodd Eluned, fy chwaer, ddiagnosis o glefyd y siwgr a oedd yn golygu bod rhaid iddi chwistrellu inswlin bedair gwaith y dydd. Nid oedd unrhyw drafodaeth ynglŷn â hyn fel rhwystredigaeth a fyddai'n ei hatal rhag gwneud pethau. Yn hytrach, ffocws y teulu oedd parhau fel arfer a sicrhau y byddem yn ffeindio ffyrdd o alluogi Eluned i wneud yr un peth â'i ffrindiau.



Mae'r meddylfryd hwn a'r agwedd hon wedi datblygu i fod yn rhan annatod ohonof. Rwy'n credu'n gryf mewn gwneud y gorau o fywyd.



Siwrne yw bywyd ac mae pob un ohonom ni'n profi isafbwyntiau ac uchafbwyntiau. Mae'r ffordd yr ydym yn ymateb ac yn delio â'r profiadau hyn yn hollbwysig. Person dw i'n edmygu'n fawr iawn o safbwynt hyn yw **Dame Deborah James**, neu 'Bowel Babe' fel mae'n cael ei hadnabod ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn 2016, cafodd ddiagnosis o gancr y coluddyn, ac mae wedi bod yn brwydro ers hynny, nid yn unig yn erbyn cancr ei hun, ond i godi

ymwybyddiaeth o gancr y coluddyn yn gyffredinol o fewn cymdeithas. Trist yw deall bod ei brwydr ddewr yn dirwyn i ben, ond mae'r hyn a gyflawnodd Deborah o ran codi ymwybyddiaeth ac arian i waith ymchwil yn sicr yn golygu y bydd eraill yn elwa o'i dewder. Mae'n arwr go iawn.

### **'GWNEWCH Y PETHAU BYCHAN'**

meddai Dewi Sant, sef neges bwysig ry'n ni'n ei dathlu'n flynyddol ar Fawrth y cyntaf. Onid yw'n bwysig, fodd bynnag, ein bod yn byw yn ôl yr egwyddor hon trwy gydol y flwyddyn, a'n bod yn gwneud ein gorau glas i wneud y mwyaf o fywyd? Nid yw hyn yn gorfod golygu mwy na gwerthfawrogi'r hyn sydd gennym, byw yn bositif a gwneud beth a fedrwn i gefnogi eraill.



### **TAITH GERDDED I BAWB** **Dydd Sadwrn 16 Gorffennaf**

#### **LLANSTEFFAN**

**Cwrdd am 11yb yn y maes parcio cyntaf**  
**Dewch â phecyn bwyd a digon o ddiod**  
**gyda chi ar y daith**  
**Welwn ni chi yno!**

### **BORE COFFI MACMILLAN**

***Yn rhan o Fore Coffi Mwy'r Byd***

**Dydd Gwener 30 Medi 2022**

**Nodwch y dyddiad, os gwelwch yn dda**  
**Trefniadau i ddilyn**



### **GWEFAN NEWYDD Y PRIORDY**

**Mae gwefan yr eglwys i'w gweld ar ei newydd wedd!**  
**Yn ogystal â Phapur Priordy mae'r oedfa ddigidol**  
**bellach yn ymddangos ar y wefan ynghyd â dolen i**  
**gyfrif trydar y capel. Diolch yn fawr iawn i Rhodri**  
**Davies am ei waith trylwyr a chyson yn bugeilio'r wefan ac yn**  
**arbennig ar ei waith yn ei hailgynllunio.**




## Emlyn Schiavone....

Mae'n gyfnod pan ydyn ni'n sôn llawer am ffoaduriaid. Diolch i Emlyn am ddwyn i gof hanes ffoadur mewn cyfnod cythryblus blaenorol a oedd yn annwyl iawn yn ei olwg e a llawer eraill ohonom ac a ymgartrefodd yng Nghaerfyrddin.



## FFOADUR O FFRIND



Roedd **Alvaro Val' Velasco** yn enedigol o San Sebastian, tref hardd yn ardal Basque, Sbaen. Pan oedd yn 11 oed yn 1937 gofynnodd y Cadfridog Francisco Franco, arweinydd y Cenedlaetholwyr yn Sbaen, i Natsiaid yr Almaen i fomio tref o'r enw Guernica yng Ngwlad y Basg. Roedd rhyfel fewnol yn Sbaen rhwng y Cenedlaetholwyr a'r Gweriniaethwyr, yn cynnwys sosialwyr a hefyd gefnogaeth gan löwyr Cymru.

Gwnneth yr arlunydd Sbaeneg Pablo Picasso lun enwog ym 1937 o'r enw '**Guernica**' i adlewyrchu niwed y rhyfela yn cynnwys gwragedd yn sgrechian a baban wedi ei ladd.



Fel ymateb i'r rhyfela anfonodd teuluoedd ardal y Basg eu plant mewn cwch i Southampton. Roedd Alvaro yn un o 3500 o blant dan 14 oed yn ffoi. Roedd y llywodraeth Brydeinig yn amheus o'u derbyn achos dylanwad Hitler.

Cyrhaeddodd y plant Caint gyda chefnogaeth Byddin yr Iachawdwriaeth. Ar ôl cyfnod yn y fan yna daeth Alvaro a phlant eraill i Frechfa yng ngorllewin Cymru. Eu cartef oedd pebyll. Roedd y plant hynaf yn gofalu am y rhai bach.



Ar ôl tair blynedd aeth Alvaro nôl i San Sebastian. Roedd e wedi cwrdd â Mr Evans yn Brechfa a gwneud gwaith iddo fe. Daeth y teulu Evans allan i San Sebastian i gwrdd â theulu Alvaro a chynnig gwaith iddo os oedd e'n dymuno dychwelyd i Gymru.

Teithiodd Alvaro i Baris yn y lle cyntaf ac yna i Lundain cyn cyrraedd Caerfyrddin. Carafan oedd ei gartref cyntaf ond ar ôl cwrdd â merch lleol o'r enw Nesta symudodd i fflat uwchben Café Conti yn Heol Awst. Roedd pobl eraill o Sbaen yn dod i'r fflat i gwrdd a chymdeithasu pob dydd Sul.

Cafodd Alvaro a Nesta fab a enwyd Andrew a aned yn y fflat yn Heol Awst. Ar ôl magwraeth yng Nghaerfyrddin aeth i astudio yn Llundain ac mae e newydd ymddeol fel Prifathro yn Beckenham. Mae ei fab, Alfie, yn astudio ym Mhrifysgol Abertawe.

Bu Alvaro yn gweithio fel plymiwr, yn gyntaf yn Ysbyty Dewi Sant ac wedyn yng Ngholeg y Drindod. Pêl-droed oedd ei brif diddordeb a chwaraeodd i dimau yn Sanclêr a Chaerfyrddin a bu'n hyfforddwr. Roedd e'n chwaraewr dawnus ond yn fwy na hynny'n gymeriad hoffus a hyfryd.



## Lluniau

- (1) Alvaro 'Val' Velasco
- (2) Guernica – Pablo Picasso
- (3) Pwyllgor CPD Tref Caerfyrddin (yn cynnwys Alvaro, ym 1997-blwyddyn hynod lwyddiannus yn hanes y clwb)

## PERERINDOD YR OFALAETH





# Ifanc@Priordy

Helo bawb, dyma ni'n tynnu at ddiwedd tymor arall. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cwmni a'ch gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi bod yn flwyddyn anodd iawn i bawb! Ond hei ho... mae'n dda ein bod nôl gyda'n gilydd ac edrychwn ymlaen at dymor newydd ym mis Medi. Joiwch yr haf!

## TAITH GERDDED I BAWB Dydd Sadwrn, 16 Gorffennaf LLANSTEFFAN

Cwrdd am 11yb  
yn y maes parcio cyntaf.  
Dewch â phecyn bwyd  
a digon o ddiod  
gyda chi ar y daith.  
Welwn ni chi yno!

Tan fis Medi, Hwyl i chi i gyd,  
Beti-Wyn x

# Chwilotair Llythyren C

|   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | I | E | O | C | S | U | P | R | Y | C | H | C | C |
| N | E | D | L | P | A | I | N | C | N | M | R | E | C |
| A | O | N | C | C | R | R | R | A | C | C | A | D | T |
| D | C | M | E | C | E | I | M | P | S | T | S | R | F |
| I | A | A | C | R | S | L | C | E | E | S | E | O | C |
| A | C | I | P | T | Y | S | E | R | L | N | C | N | D |
| I | O | C | R | A | C | C | C | N | C | I | E | A | D |
| T | R | O | L | A | D | R | O | A | R | A | C | N | A |
| E | N | L | S | N | F | O | C | U | R | D | N | A | W |
| R | E | O | C | A | P | L | C | M | S | C | A | A | D |
| C | L | S | A | R | O | R | A | I | A | A | C | R | I |
| A | I | I | I | S | Y | D | I | C | A | S | P | A | E |
| O | W | A | N | I | S | A | F | F | A | I | A | C | C |
| A | S | O | T | T | M | C | O | R | I | N | T | H | L |

COLOSIA  
CAIAFFAS  
CYRENE  
CORNELIWS  
CALFARIA

CARMEL  
CRETIAID  
CAPERNAUM  
COLOSIA

CAIN  
CESAR  
CRETA  
CEIDWAD  
CAPADOCIA

CEDRON  
CRIST  
CYRPUS  
CORINTH  
CANA

PERERINDOD YR OFALAETH



# Pererindod yr Ofalaeth

## Dydd Sul 26 Mehefin 2022

**RHYFEDD** meddwl bod cyd-ddringo grisiau bws, cydeistedd a chyd-drafod yn gallu achosi cymaint o hwyl a chyffro – ond dyna fel y bu! Wel, chwarae teg, dyma'r tro cyntaf i ni allu wneud hyn oll gyda'n gilydd ers tair blynedd oherwydd Covid-19. Ac er mawr ryddhad, bu modd cynnal ein Pererindod i Soar-y-mynydd yn 2022 heb orfod poeni, gohirio nac ad-drefnu, er bod rhai o'n ffyddloniaid yn eisiau'r tro hwn a ninnau'n eu colli.

Roedd hi'n sych os nad yn heulog pan adawodd y bws Caerfyrddin ar ôl codi cydaelodau ym Mancyfelin a Chana ac amryw o gyfeillion eraill o gapeli'r dref a mannau cyfagos. Anelwyd am Lanymddyfri – un o gyrchfannau mwyaf poblogaidd Sir Gâr sy'n llawn hanes gyda digon i'w weld a'i wneud yn y dref ei hunan ac o'i hamgylch. Cyrchfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 2023, wrth gwrs. Dyma fydd yr wythfed tro i Sir Gaerfyrddin gynnal yr Eisteddfod hon ond hwn fydd y tro cyntaf iddi gael ei chynnal yn Lanymddyfri.



Oedi am ychydig yn y dref a chyfle i fynd am dro i'r parc a mannau eraill ac am baned o goffi yn y West End a rhyfeddu at y moto-beics drudfawr a sgleiniog a'u perchnogion yn eu gwisgoedd lledr sydd bob amser yn ymgasglu yn y caffi hwn!



Ymlaen â ni wedyn am Soar-y-mynydd drwy bentref Rhandir-mwyn a chael hwyl wrth fentro ateb cwestiynau'r cwis yn ymwneud â'r ardal leol wedi'i baratoi gan Beti-Wyn. Enwogion yr ardal, wrth gwrs, yw'r Ficer Prichard, awdur *Canwyll y Cymry*, a William Williams, Pantycelyn a chawsom gydganu rhai o'i emynau adnabyddus. Cofwyd hefyd am bobl a phethau eraill fel Llywelyn ap Gruffydd Fychan a'i gerflun ger Castell Lanymddyfri, Banc y Tarw Du, Y Porthmyn - sef yr enw ar Glwb Rygbi'r Dre, a Thomas Jones neu Twm Siôn Cati, gŵr o ddysg a dawn a bonheddig ei sefyllfa y tyfodd cnwd o storïau rhamantus o gylch ei enw!



Taith ara deg a phwyllog iawn fu hon, nid yn unig oherwydd culni'r ffordd ddroellog ond hefyd y seiclwyr (nid y motobeicwyr) yn dod i'n hwynebu wrth iddynt gymryd rhan mewn ras – cannoedd ohonynt hefyd! Diolch bod gan ein gyrrwr profiadol amynedd Job a digonedd o sgiliau! Diolch hefyd am y golygfeydd godidog yn mynnu tynnu'n sylw wrth i ni edrych i lawr ar Lyn Brianne a dechrau ymosod ar ein pecynnau bwyd!



Dyma gyrraedd Soar-y-mynydd yn ddiogel. Cafodd y capel ei godi ddeucan mlynedd yn ôl ym 1822 i wasanaethu ffermwyr mynyddoedd y Cambrian. Roedd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan y porthmyn wrth iddyn nhw yrru defaid tuag at farchnadoedd Llundain. Mae'n fan anhysbell, tawel a heddychlon o fewn naw milltir i'r dref agosaf, Tregaron. Does dim yno i ddenu'ch



sylw, dim trydan, dim signal ffôn. Does dim gwres chwaith. Mae'r niferoedd sy'n mynychu'r capel wedi gostwng dros y blynyddoedd. Rhyw 10-12 o bobl sy'n dod i'r gwasanaethau yn rheolaidd ac mae'r capel ar gau yn ystod y gaeaf, gyda'r amodau yn ei gwneud hi'n anodd i deithio yma. Ond mae'n stori wahanol yn ystod

misoedd yr haf, wrth i bobl deithio yno o bedwar ban byd. Am ddwy flynedd roedd yn rhaid cau drysau'r capel oherwydd Covid ond ailagorwyd ar Ddydd Sul, 8 Mai, am y tro cyntaf ers y pandemig.

Wel, gallwch fentro fod yr aelodau'n falch o weld y drysau'n ailagor wrth i'r capel ddathlu pen-blwydd arbennig eleni. Mae'n siŵr hefyd eu bod yn falch o weld y capel yn llawn hyd yr ymylon ar ddydd ein hymweliad ni, gyda phererinion yno o'r ardal leol, cangen Merched y Wawr Llandysul, llond bws o Annibynwyr o gyffiniau Wrecsam a hefyd un hyd yn oed o Awstralia bell! Ie, golygfa brin iawn yn unrhyw ran o Gymru erbyn hyn!



A'r adar yn canu'n swynol yn y cefndir, gosododd ein Gweinidog naws briodol i'r oedfa, wrth gydio yng ngeiriau dechreuol Gweddî'r Arglwydd ar gyfer ei myfyrdod, yn enwedig gan ei bod yn Sul y Tadau. Gair y Testament Newydd am Dduw yw Tad a chlywsom fel y mae Duw y Tad yn agos atom, yn gofalu amdanom ac yn drugarog wrthym. A bydd y plant a oedd yn bresennol (Gwenan, Elliw a Greta - gyda Miriam yn ymuno â ni'n ddiweddarach) yn cofio am y stori a gawsant am Dduw yn ein caru, beth bynnag yw'n cyflwr. Defnyddiodd ein Gweinidog bapur deg punt newydd sbon danlli cyn iddi ei droi'n grychau i gyd i esbonio hyn. Fe'i cynorthwywyd yn yr oedfa gan y Parchedig Tom Defis (darlleniad). Mari Richards (Llanddewi Brefi) oedd ar yr allweddellau a David Evans (Bow St) oedd y cyhoeddwr.



Diolch hefyd am y canu ystyrlon a chyfoethog.

Amser tynnu llun wedyn o flaen y capel a sgwrsio â hwn a'r llall cyn dychwelyd i'r bysiau ar gyfer ein taith i New Cross Inn yn Nryslwyn. Roedd y daith y tro hwn yn un llawer mwy haddennol gyda'r

seiclwy'r wedi hen ddiplannu! Hyfryd oedd ymlacio'n llwyr a gwrando ar emynau a chaneuon ac ymuno i ganu bob yn hyn a hyn, gan oedi am ychydig ger Llyn Brianne i fynd am dro bach ac estyn ein coesau!

Cawsom groeso arbennig gan deulu Blakeman yn New Cross Inn a'r cinio, y pwdin a'r coffi wrth fodd pawb! Eto, ar ddiwedd y swper, roedd rhaid cael cân neu ddwy gyda Heather Williams wrth y piano a ninnau'n ymdrechu i godi'r to!



Diolchodd Huw Michael ar ein rhan am ddiwrnod bendigedig ac i bawb a gefnogodd y daith, yn arbennig i Beti-Wyn am y trefniadau a'r oedfa, Joanne Richards (Bancfelin) a Mair Jones (Cana) am gasglu enwau yn eu capeli, Adrian Evans (Trysorydd y Priordy) am ofalu am yr ochr ariannol i bethau, a staff y New Cross Inn. Ac wrth gwrs, cofiwyd am Elfed 'GGG' Lewis o Gwmni Ffoshelig – **G**yrwr **G**orau'r **G**orllewin!!

**WRTH** wrando ar y ffordd adre ar *Am eich Cais* ar *Radio Cymru* ein gobaith a'n gweddi ni oll oedd y bydd heddwch a thangnefedd ac iechyd a diogelwch yn ymledu ar draws ein byd ac y bydd modd i ninnau fel eraill barhau i bererindota yn y dyfodol heb orfod gofidio a chanslo ac ad-drefnu. Bu'n ddiwrnod wrth fodd calon ac mae gennym – diolch i'n Gweinidog – ffilm o'r achlysur i'w thrysori a throï'n ôl ati. Ond am y tro edrychwn ymlaen yn ffyddiog yn awr at 2023!

## **Apêl Mehefin a Gorffennaf**



# **PLANT DEWI**

*Lle mae Teuluoedd yn Bwysig*  
*Where Families Matter*

**Bwndel Babi**

Mae Plant Dewi yn brosiect sydd yn cefnogi  
Teuluoedd ar draws Esgobaeth Tyddewi.

Mae Bwndel Babi yn cynnig adnoddau ac offer hanfodol i groesawu  
babi newydd i'r cartref

Mae croeso i chi gefnogi'r Apêl hon dros Suliau Mehefin a  
Gorffennaf drwy gyfrannu'r canlynol  
(yn unig):

**Sanau (maint baban newyddanedig)**  
**Dilledyn Babygro (maint baban newyddanedig)**  
**Cewynnau (maint baban newyddanedig)**  
**Bibiau**

***Diolch ymlaen llaw am bob cefnogaeth***

## PAPUR PRIORDY'N HOLI GWILYM AM EI GAMP ARBENNIG!

**PP:** Llongyfarchiadau i ti yn y lle cyntaf, Gwilym, am ragori yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych a dod yn gyntaf yn y Gystadleuaeth Llefaru Unigol (B3/4). Ardderchog! Wnest ti fwynhau cymryd rhan?

**GS:** *Roedd cystadlu yn yr Eisteddfod yn lot fawr o hwyl. Roedd yn deimlad arbennig iawn i ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth.*

**PP:** A diolch i ti am lefaru'r darn yn y Priordy. Wel nawrte. Rwyf ti wedi cyflawni camp arbennig arall hefyd Gwilym. Mynd ar daith gerdded rithiol o Gaerfyrddin i Ddinbych! Sut daeth y syniad i ti?



**GS :***Roedd yr ysgol wedi cynnal diwrnod i godi arian ond roeddwn yn absennol y diwrnod yna. Oherwydd hynny penderfynais fy mod i eisio gwneud rhywbeth i godi arian. Gan fy mod yn mynd i gystadlu yn yr eisteddfod, penderfynais wneud taith rithiol o Gaerfyrddin i Ddinbych er mwyn codi arian.*

**PP:** Gwnest ti hyn ar y cyfrifiadur, mae'n siŵr. Esbonia sut?

**GS:** *Roedd dad wedi mesur y pellter ar Google maps a wedyn defnyddiais gwefan Strava sydd yn cadw cofnod o ble a pha mor bell roeddwn wedi cerdded.*

**PP:** Pa mor bell oedd y daith a pha ffordd est ti?

**GS:** *Roedd y daith yn 124 milltir i gyd. Cerddais mewn nifer o lefydd gwahanol. O amgylch tref Caerfyrddin, i'r ysgol bob dydd, gyda Taid yn Ninbych a Mam-gu yng Nghwmmfelin a nifer o lefydd diddorol eraill. Roedd yn hwyl dod i nabod llefydd a llwybrau newydd.*

**PP: Faint o amser gymerodd y daith i gyd?**

**GS:** Fe gymerodd 56 diwrnod i mi orffen y daith. Roedd rhaid i mi gerdded bron bob dydd er mwyn cyrraedd 124 milltir.

**PP: Fe orffennaist ti'r daith mewn pryd ar gyfer yr Eisteddfod heb fod yn bell o ble mae Nain a Taid yn byw?**

**GS:** Mae Nain a Taid yn byw yn Ninbych tua hanner milltir o ble roedd maes yr eisteddfod. Gorffennais y daith ar y dydd Sul cyn i'r eisteddfod ddechrau gan gerdded at fynedfa'r

maes a cael dathliad bach.



**PP: Ti wedi codi llawer o arian i helpu pobl Wcráin drwy'r daith rithiol.**

**GS:** Rwyf wedi codi £1,060 tuag at yr apêl. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cefnogi a noddi. Dim

ond £150 oedd y targed gwreiddiol felly cefais sioc wrth weld y cyfanswm terfynol.

**PP: Wel, da iawn ti. Rhagorol. Diolch yn fawr iawn i ti am dy ymdrechion ac am ateb y cwestiynau**

**AR Y WE:** [www.priordy.org](http://www.priordy.org) (yn cynnwys Papur Priordy)

**BORE COFFI**

**AMNEST RHYNGWLADOL**

**23 Gorffennaf 2022 – 10.30-12.30**

**Eglwys Wesleiaidd Stryd Ioan**

**Tocynnau: £2 (yn cynnwys te / coffi, bisgedi a phice ar y maen)**

**Yr elw at waith y mudiad ar hawiau dynol**



**Cyflwynwyd sicc am £250 i Tom Defis at Apêl Wcráin yn dilyn gwerthu'n bathodynnau blodau haul! Diolch i bawb yn yr Ofalaeth a brynodd fathodyn a diolch arbennig i Carys Angharad a Louise - 'Crefftiau Ni a Mam-gu' am greu'r bathodynnau hardd ar ein cyfer. Maen nhw ym mhobman!**



**Mae Blodyn Haul  
Teulu Morgans  
wedi blodeuo!**





## GWEDDI DROS WCRÁIN



Gweddïwn am heddwch yn y byd.

Gweddïwn dros bobl gyffredin Wcráin yn eu hofn a'u dychryn, gan ddeisyf y byddant yn cael eu hamddiffyn rhag trais a marwolaeth.

Cofiwn hefyd am eu harweinyddion.

Gweddïwn am ddoethineb i arweinyddion cenhedloedd y byd yn eu penderfyniadau wrth ymateb i'r argyfwng hwn.

Gweddïwn am oleuni a chrebwyll i'r Cenhedloedd Unedig yn eu hymdrech i geisio cymod.

Gweddïwn yn enw Iesu Grist, Tywysog Tangnefedd.

**Amen**

*Gweddi gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*





## NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

### DATHLIAD

Cyfarchion eglwys Salem i'ch Gweinidog a'r Ofalaeth ar ddatlu 20 mlynedd. Mae'n amlwg yn ôl Papur Priorddy fod yna baratoi manwl a bwrlwm gyda'r digwyddiadau. Dymuniadau da - ymlaen i'r ugain nesaf !

### PEN-BLWYDD CAPEL SALEM 1862—2022

Fel arfer dathlwn ben-blwydd yr achos ar yr ail Sul yn mis Mai sef 8 Mai eleni. Dathlwn drwy gynnal ein Gŵyl Bregethu. Gwahoddir Gweinidogion o bell ac agos i arwain ein haddoliad. Eleni croesawyd Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Y Parchedig Dyfrig Rees.

**Salem Caernarfon**  
**Oedfa Bregethu**  
**8 Mai am 10**  
**Pregethwr Gwadd:**  
**Parch Dyfrig Rees**  
**Croeso i chi aros am baned a sgwrs**  
**yn y festri ar ol y gwasnaeth**



### CYMORTH CRISTNOGOL

Oherwydd y Pandemig cyfyngwyd yn arw iawn ar weithgareddau'r wythnos yn y gorffennol ond eleni llwyddwyd i gynnal Taith Feicio o Gaernarfon i Felinheli ac yn ôll! Llwyddwyd hefyd i gasglu mewn rhai strydoedd o ddrws i ddrws a chynhaliwyd oedfa undebol ar ddiwedd yr wythnos .

### APEL WCRÁIN

Derbyniodd y Gweinidog neges destun: *Helo Mr Williams, gobeithio eich bod yn cadw'n iawn. Dw i yn trio hel arian i Ukraine drwy raffls, cacennau dros y penwythnos. Ydi Salem yn hel arian neu betha' iddyn nhw? Fyswn i yn licio cyfrannu tuag atyn nhw.'*



Eglurwyd fod manylion cyfrannu drwy Cymorth Cristnogol wedi eu rhoi i'r aelodau. Ymhen dyddiau derbyniais neges: *Mae gen i gyfraniad o £105 mewn amlen i'w roi i chi.* Erbyn hyn mae'r arian wedi cyrraedd Llinos Roberts, trefnydd Cymorth Cristnogol yn y Gogledd. Diolch i Kelly a Meirion Parry.



# G / A



Pa mor dda ydych chi'n 'nabod eich emynau? Mae ail linell deg emyn isod. Tybed beth yw'r llinell gyntaf? Mae'n Rhifyn Mis Gorffennaf / Awst a chan hynny mae'r pum cyntaf yn dechrau gydag G a'r pump arall gydag A!!!  
Rhowch gynnig arni! Pob lwc!!



|    |                                              |   |
|----|----------------------------------------------|---|
| 1  | O mor felys yw                               | G |
| 2  | gwyrth ein daear fechan, rhyfeddod bod a byw | G |
| 3  | gwn pa le mae'r trysor mawr                  | G |
| 4  | yw f'Anwylyd                                 | G |
| 5  | i gadw'r llwybyr cul                         | G |
| 6  | i fyd sydd well i fyw                        | A |
| 7  | heb ei ofyn                                  | A |
| 8  | neidio, dawnsio a difyrru                    | A |
| 9  | â'th lân ysbryd di dy hun                    | A |
| 10 | i weld angen mawr y byd                      | A |

Am yr atebion, gweler yr emynau canlynol yn Caneuon Ffydd

23, 123, 313, 358, 763, 167, 212, 436, 839, 841

# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD



Eisteddfod



Eisteddfod

**SIR DDINBYCH 2022**

**Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu eleni yn Eisteddfod yr Urdd ar bob lefel ac yn enwedig i'r rhai isod a fu'n fuddugol yn y Genedlaethol.**

|                                                                         |                                                                                        |                |
|-------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------|----------------|
| <b>Osian Hayes</b>                                                      | <b>Parti Bechgyn B7,8,9<br/>Cyflwyniad Dramatig B7,8,9<br/>Ysgol Maes y Gwendraeth</b> | <b>2<br/>2</b> |
|                                                                         |                                                                                        |                |
| <b>Greta Wyn</b>                                                        | <b>Ffotograffiaeth<br/>Llun Lliw B2 ac lau<br/>Ysgol Gynradd Llangynnwr</b>            | <b>3</b>       |
|                                                                         |                                                                                        |                |
| <b>Gwilym Snelson</b>                                                   | <b>Llefaru Unigol B3 a 4<br/>Ysgol y Dderwen</b>                                       | <b>1</b>       |
|                                                                         |                                                                                        |                |
| <b>Miriam Williams a<br/>Luned Ifan</b>                                 | <b>Deuawd<br/>Ysgol y Dderwen</b>                                                      | <b>1</b>       |
|                                                                         |                                                                                        |                |
| <b>Gwern Schiavone-Ifan<br/>Lliwen Schiavone Ifan<br/>Nansi Howells</b> | <b>Dawns Werin B4 ac lau<br/>Ysgol y Dderwen</b>                                       | <b>3</b>       |
|                                                                         |                                                                                        |                |
| <b>Marged Jones<br/>Eva Evans</b>                                       | <b>Parti Cerdd Dant B7,8,9<br/>Ysgol Bro Myrddin</b>                                   | <b>1</b>       |
|                                                                         |                                                                                        |                |
| <b>Tomos Huw</b>                                                        | <b>Ymgom B7,8,9<br/>Aelwyd Myrddin</b>                                                 | <b>3</b>       |
|                                                                         |                                                                                        |                |
| <b>Gwenllian a Harri Howells</b>                                        | <b>Deuawd Offerynnol<br/>B13<br/>Ysgol Bro Myrddin</b>                                 | <b>2</b>       |

|                                                                                                 |                                                                                                          |                      |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|
|                                                                                                 |                                                                                                          |                      |
| <b>Beca Davies</b>                                                                              | <b>Barddoniaeth B2</b>                                                                                   | <b>2</b>             |
|                                                                                                 |                                                                                                          |                      |
| <b>Erin Roderick, Gwenllian Howells, Siwan Jones, Gwenllian Jones, Elain Owen, Gwenan Jones</b> | <b>Côr Cerdd Dant Hŷn<br/>Ysgol Bro Myrddin</b>                                                          | <b>1</b>             |
|                                                                                                 |                                                                                                          |                      |
| <b>Steffan Jones</b>                                                                            | <b>Côr Bechgyn<br/>Côr SATB (hyd at 40 o leisiau)<br/>Côr SATB (dros 40 o leisiau)<br/>Y Waun Ddyfal</b> | <b>1<br/>2<br/>2</b> |
|                                                                                                 |                                                                                                          |                      |
| <b>Jac Thomas</b>                                                                               | <b>Côr Bechgyn<br/>Côr SATB (hyd at 40 o leisiau)<br/>Aelwyd Hafodwennog</b>                             | <b>3<br/>3</b>       |
|                                                                                                 |                                                                                                          |                      |
| <b>Noa Jones</b>                                                                                | <b>Eisteddfod T<br/>(O Adre)<br/>Hud a Lledrith<br/>Ysgol y Dderwen</b>                                  | <b>1</b>             |
|                                                                                                 |                                                                                                          |                      |
| <b>Nel Jones</b>                                                                                | <b>Eisteddfod T<br/>(O Adre)<br/>Dynwared David Attenborough<br/>Ysgol y Dderwen</b>                     | <b>3</b>             |
|                                                                                                 |                                                                                                          |                      |
| <b>Miriam Williams<br/>Olwen Williams</b>                                                       | <b>Band / Artist Unigol B6 ac lau<br/>Y Tarannau<br/>Clwb Jiwdo Kanokwai</b>                             | <b>2</b>             |

**Beth am droi at  
Wefan yr Undeb?  
[www.annibynwyr.org](http://www.annibynwyr.org)**







# DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



| Gorffennaf     |           | Medi              |              |
|----------------|-----------|-------------------|--------------|
| Gofalwr        | Gwresogwr | Gofalwr           | Gwresogwr    |
| Alison Parsons |           | Elinor W Reynolds | Adrian Evans |



## BLODAU



|            |    |                |      |    |                |
|------------|----|----------------|------|----|----------------|
| Gorffennaf | 3  |                | Medi | 4  |                |
|            | 10 | Sul y Cyfundeb |      | 11 | Ann Griffiths  |
|            | 17 | Luned V Thomas |      | 18 |                |
|            | 24 |                |      | 25 | Gŵyl Mawl Medi |
|            | 31 | Eirlys Jones   |      |    |                |



## PARATOI'R BWRDD CYMUN



|            |   |      |                              |
|------------|---|------|------------------------------|
| Gorffennaf | 3 | Bore | Alwen Owens a Fiona Elias    |
| Medi       | 4 | Bore | Eleri Thomas a Delyth Davies |



## DARLLENWYR



|            |    |                   |      |    |                   |
|------------|----|-------------------|------|----|-------------------|
| Gorffennaf | 3  | Heledd Mai Jones  | Medi | 4  | Y Plant           |
|            | 10 | Sul y Cyfundeb    |      | 11 | Meleri LI O'Leary |
|            | 17 | Peter H Griffiths |      | 18 | Heledd Tomos      |
|            | 24 | June Thomas       |      | 25 | Gŵyl Mawl Medi    |
|            | 31 | Gareth Gravel     |      |    |                   |



## CYHOEDDWYR



|            |            |      |              |
|------------|------------|------|--------------|
| Gorffennaf | Elis Jones | Medi | Philip Jones |
|------------|------------|------|--------------|

**Mis Awst - Sul 28 Awst 2022 - Bore yn Unig  
Is-bwyllgor yr adeiladau i drefnu Gofalwr  
Tim y cyhoeddwyr i ddewis cyhoeddwr o blith ei gilydd**

# ADDOLI AR Y CYD MIS AWST 2022

Dydd Sul, 7 Awst  
Heol Awst  
ALUN LENNY

Dydd Sul, 14 Awst  
Capel Penuel  
Y trefniadau  
i'w cyhoeddi

Dydd Sul, 21 Awst  
Y Tabernacl  
Y PARCHEDIG DDOETHUR  
DESMOND DAVIES  
Oedfa Gymun

Dydd Sul, 28 Awst  
Y Priordy  
Y PARCHEDIG  
WYN VITTLE

**NODER, OS GWELWCH YN DDA**

Gwasanaeth am 10 y bore (yn unig) ym mhob capel ac eithrio  
Capel Penuel (14 Awst) a Chapel y Tabernacl (21 Awst) pan  
fydd yr oedfa'n dechrau am 10.30

**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**

Cyswllt

PHILIP JONES

Trysorydd

☎ 01267 233437 / [info@maxevans.co.uk](mailto:info@maxevans.co.uk)



**A GWYL CANOL DRE**

**AM DDIM/ FREE**

Parc Myrddin, Waun Dew, Richmond Terrace

**9.7.22**  
11am-8pm

**CAERFYRDDIN/CARMARTHEN**

**CERDDORIAETH**  
**CELFF/BWYD A DIOD**  
**LLENYDDIAETH**  
**STONDINAU**  
**CHWARAEON**  
**GWEITHDAI A MWY**

**MUSIC • ART**  
**FOOD AND DRINK**  
**LITERATURE**  
**STALLS • SPORTS**  
**WORKSHOPS**  
**AND MORE**

**Sir Gâr Carmarthenshire**  
**Menter**  
Gorllawh Sŵ Gŵi

**Y TYST**

***Yn Llawn  
Newyddion  
Da!***

**50c y rhifyn!**

**Cysyllter â  
Sulwyn  
Thomas**




**GŴYL GYHOEDDI**  
**Eosteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin**  
**Dydd Sadwrn 17 Medi 2022**  
**Canol Caerfyrddin**

**11.00 Gorymdaith trwy'r Dref**  
**12.00 Jamborî yn y parc**

**Croeso cynnes i bawb – dewch â'ch baneri**

**COFIWCH BARHAU I GADW  
STAMPIAU A CHETRYS**





**DYMUNWN** yn dda i bawb sy'n anhwylyd y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Ein cofion annwyl atoch i gyd.

Anfonwn ein cofion cynnes at Eira Jenkins (Heol Bronwydd) gan ddymuno pob dymuniad da iddi ar ei haelwyd newydd yng Nghaerdydd. Os ydych yn dymuno cael ei chyfeiriad, yna cysylltwch â'n Gweinidog, os gwelwch yn dda.

Cawsom dderbyn aelod newydd yn ein Hoedfa Gymun y mis diwethaf. Croeso cynnes iawn i Peter Wyrwoll, gŵr Miriam a gobeithio y bydd yn hapus yn ein mysg. Mae llun ohono yn y Papur hwn.

Bu Beti-Wyn yn cymryd rhan yn y drafodaeth ar **Bwrw Golwg** ar **Radio Cymru** ar y pwnc: *Beth ydy arwyddocâd dathlu Pentecost neu ddyfodiad yr Ysbryd Glân tra bo capeli ac eglwysi'n cau? Beth ydy dyfodol yr adeiladau heb sôn am ddyfodol yr eglwysi – y bobl eu hunain?*

A gwestai arbennig Huw Edwards ar **Bore Sul** ar **Radio Cymru** oedd ein Gweinidog a buont yn trafod ei chefnidir a'i swyddogaeth fel Gweinidog Bro, Llywydd Undeb yr Annibynwyr ac fel y fenyw gyntaf i'w dyrchafu'n Arwyddfardd Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Yn ddiweddarach cawsom y fraint o weld ein Gweinidog ar y rhaglen **Am Dro** ar **S4C** pan fu'n ein tywys ar daith o gwmpas ardal hyfryd Bancyfelin



Bu Dewi Snelson, Prif Weithredwr Menter Gorllewin Sir Gâr ar **Raglen Ifan Jones Evans** ar **Radio Cymru** yn siarad am **Ŵyl Canol Dre** sydd i'w chynnal yng Nghaerfyrddin ar 9 Gorffennaf 2022.

Cynhaliwyd Cyngerdd Eitemau'r Urdd yn Neuadd San Pedr a braf oedd cael bod yng nghwmni'r plant a'r bobl ifainc, yn cynnwys nifer helaeth yn gysylltiedig â'r Priordy. A'n Gweinidog ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth y limrig dan feirniadaeth Aled Williams:

Yn Steddfod yr Urdd Llanyrnddyfri  
Bydd na dipyn o hwyl ar gystadlu  
Ac am y tro cynta'  
Y flwyddyn nesa  
**Bydd cloccio tra'n gwisgo bicini!**

Llongyfarchiadau i Carwyn Axford ac Elis Roderick sydd wedi'u hethol yn Ddirprwy Brif Fechgyn yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Pob dymuniad da iddynt wrth y Gwaith.



Anfonwn ein cofion cynnes at Emyr Davies a ddathlodd ei ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Ein dymuniadau gorau iddo.

Ein llongyfarchiadau i Catrin Gwyn sydd newydd ei phenodi'n bennaeth cynorthwyol yn Ysgol Gynradd Peniel. Dymunwn yn dda iddi wrth y gwaith.

**I GLOI**, ein llongyfarchiadau hefyd i Rita Brown ar ddod yn hen fam-gu unwaith eto. Ganed merch fach i Ali ac Owain Williams ar 13 Mehefin 2022 yn Ysbyty Chelsea a Westminster yn Llundain, sef Chloe Lili Maxwell Williams, a chwaer fach i Eloise Ffion. Pob dymuniad da i'r teulu bach.



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Medi i'n  
Gweinidog neu Alun Charles**

#### **DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn, Emlyn Schiavone, Dewi Snelson, Carys Morgans, a Jayne Woods am y lluniau'r mis hwn.



#### **CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 13 Gorffennaf 2022 am 7  
yn y capel**

**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r  
ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhwch wybod i'r Ysgrifennydd  
Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**





# Y SULIADUR



|                   |           |             |                                                                                                                                    |          |
|-------------------|-----------|-------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------|
| <b>Gorffennaf</b> | <b>3</b>  | <b>Bore</b> | Ein Gweinidog<br>Cwrdd Eglwys wedi'r Oedfa<br>P'nawn Gŵyl Hirddydd Haf – Parc y Dref am 4.30                                       | <b>C</b> |
|                   | <b>10</b> | <b>Bore</b> | Sul y Cyfundeb - Manylion y tu mewn                                                                                                |          |
|                   | <b>17</b> | <b>Bore</b> | Ein Gweinidog<br>Pererindod Tabernacl Hendy-gwyn,<br>Trinity Llanboidy a Bethel, Llanddewi yn<br>ymuno â'n hoedfa. Paned i ddilyn. |          |
|                   | <b>24</b> | <b>Bore</b> | Ein Gweinidog                                                                                                                      |          |
|                   | <b>31</b> | <b>Bore</b> | Gwasanaeth yng ngofal yr Aelodau                                                                                                   |          |

|             |           |             |                                                                                           |          |
|-------------|-----------|-------------|-------------------------------------------------------------------------------------------|----------|
| <b>Medi</b> | <b>4</b>  | <b>Bore</b> | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog                                                              | <b>C</b> |
|             | <b>11</b> |             | Ein Gweinidog<br>Casgliad i'r Genhadaeth (mewn amlen<br>gyda'ch rhif a'ch enw ar y blaen) |          |
|             | <b>18</b> | <b>Bore</b> | Ein Gweinidog                                                                             |          |
|             | <b>25</b> | <b>Bore</b> | Gŵyl Mawl Medi                                                                            |          |

| CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC                                                                                                  |    |    |    |    |      |    |    |     |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|----|----|----|------|----|----|-----|
| ✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant<br>OD – Oedfa Deulu GMM – Gŵyl Mawl Medi SS- Sul Sbsial |    |    |    |    |      |    |    |     |
| Gorffennaf                                                                                                                       |    |    |    |    | Medi |    |    |     |
| 3                                                                                                                                | 10 | 17 | 24 | 31 | 4    | 11 | 18 | 25  |
| CP                                                                                                                               | ✓  | SS | -  | -  | CP   | ✓  | ✓  | GMM |

Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu  
Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen



## DALIER SYLW

Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r  
Suliadur mewn da bryd.

